

# Foodex, Japan

PRYD
**10-13 Mawrth 2026**

PRIF SECTORAU
**Bwyd a Diod**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Hoffai Llywodraeth Cymru wahodd eich cwmni i arddangos yn Foodex, Japan.

## PAM FOODEX 2026?

Foodex, Japan yw'r platfform eithaf ar gyfer busnes, masnach, rhwydweithio ac arloesi, gan ddenu arweinwyr diwydiant a gweithwyr proffesiynol o bob cwr o'r byd. Denodd digwyddiad y llynedd fwy na 72,000 o brynwyr. Gyda dros 3,000 o frandiau byd-eang mawr o 80 o wledydd a rhanbarthau ledled y byd, mae Foodex 2026 yn arddangosfa na ddylid ei cholli.

## PAM DOD?

Bydd yr ymweliad hwn yn rhoi cyfle i chi arddangos eich cwmni, creu cysylltiadau gwerthfawr a chynyddu eich allforion yn y sector hwn sy'n borth i Japan a marchnadoedd Asiaidd eraill.

Drwy gymryd rhan, dyma'r manteision i'ch busnes chi:

- Ffordd gost effeithiol o ymweld â'r farchnad.
- Cael presenoldeb o dan frand Cymru Wales ochr yn ochr â stondin y DU
- Rhwydweithio a siarad â busnesau a phenderfynwyr blaenllaw yn y farchnad
- Rhannu profiadau a gwybodaeth â chyfranogwyr eraill o Gymru a'r DU
- Cael eich cynnwys mewn unrhyw ddeunyddiau marchnata

## Y GOST

Mae Llywodraeth Cymru wedi helpu â chostau arddangos – gweler cost yr opsiynau â chymorth isod:

**Cost Arddangoswr – £4,000.00 (ynghyd â TAW)**, fesul arddangoswr, yn seiliedig ar stondin 4 metr sgwâr. Gall stondinau mwy fod ar gael drwy wneud cais

- Tocynnau hedfan dwyffordd
  Llety am bum noson (cyrraedd y diwrnod cyn y sioe) gyda brecwast i un person
- Pris person ychwanegol £1,600.00 (ynghyd â TAW)
- Safle arddangos pwrpasol o dan frand Cymru Wales ochr yn ochr â stondin y DU
- Paneli graffig sylfaenol a dodrefn
- Gwybodaeth amdanoch yn nhaflen wybodaeth y sioe ac mewn deunyddiau marchnata
- Pàs arddangoswr i'r sioe
- Cefnogaeth ar y safle gan staff Llywodraeth Cymru
- **Sylwch fod arddangoswyr yn gyfrifol am ddanfon eu nwyddau**

**Mae Ymweliadau Allforio ar gael am gost o £1,800.00 ynghyd â TAW).**
Cysylltwch â ni i drafod eich gofynion.

E-bostiwch am ffurflen gais neu ragor o wybodaeth:
shirley.mcgilvray@llyw.cymru

OGL
WG53609
© Hawlfraint y Goron 2025